sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Radio Cymunedol

## Rhoi pedwar trwydded radio cymunedol: Rhagfyr 2019

**DATGANIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 11 Rhagfyr 2019

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 1

2. Trwyddedau sydd wedi'u rhoi 2

3. Gofynion statudol sy'n ymwneud â thrwyddedau radio cymunedol 5

# 1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cyhoeddi'r ffaith bod chwe thrwydded radio cymunedol wedi'u rhoi.

Mae'r trwyddedau i orsafoedd sy'n gwasanaethu cymunedau yng Nghymru (un ym Merthyr Tudful ac un yn Nhowyn, Conwy), Lloegr (yn Shaftesbury, Dorset), a'r Alban (yn Shotts, Swydd Lanark).

# 2. Trwyddedau sydd wedi'u rhoi

2.1 Yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2019, penderfynodd Ofcom roi pedwar trwydded radio cymunedol. Mae'r trwyddedau i orsafoedd sy'n gwasanaethu cymunedau yng Nghymru (un ym Merthyr Tudful ac un yn Nhowyn, Conwy), Lloegr (yn Shaftesbury, Dorset), a'r Alban (yn Shotts, Swydd Lanark).

2.2 Rhaid i bob gwasanaeth radio cymunedol ddiwallu 'nodweddion gwasanaeth' penodol sydd wedi'u pennu mewn deddfwriaeth – roedd Ofcom yn fodlon bod pob ymgeisydd a gafodd drwydded yn diwallu'r 'nodweddion gwasanaeth' hyn. Hefyd, roedd pob cais yn cael ei ystyried o safbwynt meini prawf statudol, ac mae'r manylion wedi'u nodi isod. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r prif ystyriaethau o ran y meini prawf hyn a oedd yn sail i benderfyniadau Ofcom ynghylch dyfarnu'r trwyddedau. Pan fo'n berthnasol, mae'r meini prawf statudol perthnasol y cyfeiriwyd atynt (a ddynodir gan rif yr is-baragraff) wedi'u nodi mewn cromfachau.

## Ymgeiswyr a gafodd drwydded

2.3 Mae Ofcom wedi rhoi trwydded i bob un o'r canlynol:

- Alfred (Alfred Radio Limited), Shaftesbury, Dorset
- Listen Lanarkshire (Getting Better Together Limited), Shotts, Swydd Lanark
- Radio Merthyr (The 3Gs Development Trust), Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tydfil
- Sound Radio (Sound Radio Limited), Towyn (Conwy) a'r ardaloedd cyfagos

2.4 Bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu trwyddedu am gyfnod o bum mlynedd o'r dyddiad y byddant yn cael eu lansio, ar FM.

2.5 Yn unol â'r gyfraith, roedd Ofcom yn fodlon na fyddai'r gwasanaethau newydd yn peryglu hyfywedd ariannol unrhyw wasanaeth radio masnachol analog lleol yn ormodol.

### Alfred

2.6 Bydd Alfred yn darparu gwasanaeth i gymuned Shaftesbury yn Dorset a'r ardal wledig gyfagos. Mae gan yr ymgeisydd aelodau gyda phrofiad mewn swyddogaethau darlledu a golygyddol, sy'n amlwg o'i dudalennau newyddion a nodweddion lleol ar ei wefan. Mae'n cynnig gweithredu gorsaf am gost isel sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr. Bydd yn canolbwyntio'n llwyr ar gynnwys llafar wedi'i anelu at grŵp demograffig hŷn.

Dangosodd yr ymgeisydd sut y byddai'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer chwaethau a diddordebau lleol (1b) wrth deilwra'u Prif Ymrwymiadau arfaethedig yn deillio o adborth gan eu cymuned, a gafwyd drwy gwblhau gwaith ymchwil marchnad helaeth cyn iddynt gyflwyno eu cais. Rhoddodd yr ymgeisydd rywfaint o dystiolaeth o'r galw a'r cymorth ar gyfer eu gwasanaeth arfaethedig unigryw (1d). Ni fydd yn rhwym wrth stiwdio a bydd yn darlledu deunydd yn uniongyrchol o fewn y gymuned.

Mae ganddo amcanion mantais cymdeithasol, er enghraifft, creu "melin drafod" i ystyried

sut i fynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol (1e) ac fe ddangosodd ei allu i gynnal y gwasanaeth (1a).

## Listen Lanarkshire

2.7 Mae Listen Lanarkshire yn gwasanaethu'r cyn gymunedau glofaol Shotts a'r pentrefi cyfagos. Mae'r ymgeisydd yn elusen gofrestredig ac eisoes yn rhedeg gorsafoedd radio ar-lein. Mae wedi dod o hyd i gyllid o amryw o ffynonellau. Mae rhai o'r rhain eisoes wedi'u diogelu. Roedd Ofcom yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi dangos ei allu i gynnal y gwasanaeth (1a). Mae gan wasanaeth y rhaglen ffocws lleol yn ystod y dydd a rhaglenni mwy Albanaidd eu naws gyda'r nos, sy'n apelio fwy at chwaeth a diddordebau'r gymuned darged (1b). Mae gan y cwmni sy'n gwneud y cais 17 mlynedd o brofiad yn darparu ystod o gyfleusterau lleol a bydd yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, fel ysgolion lleol, grwpiau ieuenctid, fforymau tenantiaid a phreswylwyr a chlybiau chwaraeon. Bydd hyn yn dod â mantais cymdeithasol, fel hyfforddiant, i'r gymuned darged (1e). Mae'r ymgeisydd, Getting Better Together, yn elusen lleol, ac mae ganddyn nhw weledigaeth glir ynglŷn â sut byddai gwasanaeth radio cymunedol yn dod â manteision i breswylwyr lleol. Bydd grŵp llywio o bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal yn gweithio gyda'r bwrdd a staff yr orsaf i sicrhau atebolrwydd a bod ffocws y gymuned yn aros yr un fath (1f).

## Radio Merthyr

2.8 Bydd Radio Merthyr yn darparu gwasanaeth radio cynhwysol i bobl yn ardal Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae gan yr ymgeisydd brofiad o redeg cwmni dielw ac mae wedi creu cysylltiadau â gwasanaethau radio sydd eisoes yn bodoli, yn ogystal â chreu is-grŵp o aelodau sydd â diddordeb mewn radio. Roedd Ofcom yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi dangos ei allu i gynnal y gwasanaeth (1a). Mae'r ymgeisydd yn cynnig bod ganddo bolisi cerddoriaeth amrywiol a ffocws ar fywyd yn ardal Merthyr, gan ymgysylltu â busnesau lleol (1b).

Mae gan yr ymgeisydd gysylltiadau â'r gymuned ac mae'n cynnig ystod o amcanion mantais gymdeithasol a fydd o fudd i'r ardal leol (1e).

Fel elusen sy'n bodoli eisoes, mae'r ymgeisydd yn darparu gwybodaeth dda i ddangos sut y bydd yn sicrhau atebolrwydd i'w gymuned darged (1f).

## Sound Radio

2.9 Mae Sound Radio ar gyfer cymunedau Bae Cinmel a Thowyn, Abergele, y Rhyl a'r trefi a'r pentrefi cyfagos yn Nyffryn Clwyd.

Mae gan aelodau'r grŵp ymgeisio brofiad o weithio ym maes radio cymunedol ac yn y ddwy flynedd ddiwethaf maent wedi bod yn cynnal gwasanaeth radio ar-lein lleol.

Mae ganddo gostau sefydlu isel, ac mae cyllid yn cael ei ddiogelu ar ei gyfer, ac mae eisoes yn berchen ar offer darlledu.

Roedd Ofcom yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi dangos ei allu i gynnal y gwasanaeth (1a).
Cynigir gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr ardal gyda rhywfaint o allbwn Cymraeg.

Mae'r cynigion wedi'u seilio ar brofiad y grŵp o ddarlledu'n lleol ac yn darparu ar gyfer

chwaeth a diddordebau lleol (1b) yn ogystal ag ehangu dewis yn lleol (1c).
Dangosodd yr ymgeisydd hefyd fod galw am y gwasanaeth arfaethedig a bod cefnogaeth iddo (1d).

# 3. Gofynion statudol sy'n ymwneud â thrwyddedau radio cymunedol

3.1 Mae'r tudalennau canlynol yn nodi'r gofynion statudol sy'n ymwneud â thrwyddedau radio cymunedol, a manylion y broses drwyddedu. Mae rhagor o wybodaeth am y rhain, a gwybodaeth fanwl ynghylch radio cymunedol, ar gael yn y ddogfen ganlynol gan Ofcom: Nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer ymgeiswyr am drwyddedau radio cymunedol a thrwyddedigion.

3.2 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, rhaid i Ofcom ystyried y dyletswyddau cyffredinol sydd wedi'u nodi yn adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Ar ben hynny, o dan adran 85(2)(b) o Ddeddf Darlledu 1990, mae'n ddyletswydd ar Ofcom i wneud popeth posib i sicrhau bod amrywiaeth ac ystod eang o wasanaethau radio lleol yn cael eu darparu yn y DU.

## Nodweddion gwasanaeth radio cymunedol

3.3 Mae'n rhaid i bawb sydd â thrwydded radio cymunedol fodloni'r gofynion 'nodweddion gwasanaeth' sydd wedi'u nodi yn Erthygl 3 o Orchymyn Radio Cymunedol 2004. Dyma nodweddion gwasanaethau radio cymunedol:

- maent yn wasanaethau lleol sy'n cael eu darparu'n bennaf er budd aelodau'r cyhoedd, neu gymunedau, ac er mwyn cyflawni budd cymdeithasol, yn hytrach nag am resymau masnachol gan fwyaf nac er mwyn elw ariannol neu faterol arall i'r unigolion sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaeth;
- prif ddiben y gwasanaeth yw gwasanaethu un gymuned neu ragor (boed yn gwasanaethu aelodau eraill o'r cyhoedd hefyd ai peidio);
- nid yw'r sawl sy'n darparu'r gwasanaeth yn gwneud hynny er mwyn gwneud elw ariannol, ac mae'n defnyddio unrhyw elw a geir drwy ddarparu'r gwasanaeth yn llwyr ac yn gyfan gwbl er mwyn diogelu neu wella'r gwasanaeth a ddarperir yn y dyfodol, neu er mwyn darparu budd cymdeithasol i aelodau'r cyhoedd neu'r gymuned a wasanaethir gan y gwasanaeth;
- mae aelodau'r gymuned y mae'r gwasanaeth i fod i'w gwasanaethu yn cael cyfleoedd i gymryd rhan yn y gwaith o redeg a rheoli'r gwasanaeth; ac
- mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth hwnnw, mae'r unigolyn sy'n darparu'r gwasanaeth yn gwneud ei hun yn atebol i'r gymuned y mae'r gwasanaeth i fod i'w gwasanaethu.

3.4 Mae Erthygl 2 o Orchymyn Radio Cymunedol 2004 yn cynnwys pedwar amcan "budd cymdeithasol" gorfodol. Mae "budd cymdeithasol" yn golygu cyflawni'r amcanion canlynol mewn perthynas ag unigolion neu grwpiau o unigolion yn y gymuned y mae'r gwasanaeth i fod i'w gwasanaethu, neu mewn perthynas ag aelodau eraill o'r cyhoedd:

- darparu gwasanaethau darlledu sain i unigolion sydd ddim, fel arall, yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan wasanaethau o'r fath;
- hwyluso trafod a mynegi barn;

- darparu (boed hynny drwy raglenni sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth neu fel arall) addysg neu hyfforddiant i unigolion nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y sawl sy'n darparu'r gwasanaeth; a
- deall y gymuned benodol yn well a chryfhau cysylltiadau yn y gymuned honno.

3.5 Mae Erthygl 2 hefyd yn cynnwys nifer o amcanion eraill sydd â natur gymdeithasol y gellir ystyried eu bod yn cynrychioli "budd cymdeithasol".

## Materion mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried

3.6 Mae saith o faterion wedi'u nodi yn adran 105(1) o Ddeddf Darlledu 1990 y mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried wrth benderfynu a ddylid dyfarnu trwydded radio cymunedol. Yn gryno, dyma'r materion hynny:

- Gallu pob ymgeisydd i gynnal y gwasanaeth mae'n ei gynnig dros gyfnod y drwydded (adran 105(1)(a)).
- Gallu'r ymgeisydd i ddarparu ar gyfer chwaeth a diddordebau'r gymuned darged (adran 105(1)(b)).
- Y graddau y byddai pob ymgeisydd yn ehangu'r ystod o wasanaethau radio lleol sydd ar gael yn yr ardal, a chael cynnwys sy'n wahanol i'r gwasanaethau hynny (adran 105(1)(c)).
- Y graddau y ceir tystiolaeth o'r galw a'r gefnogaeth yn lleol ar gyfer gwasanaeth arfaethedig (adran 105(1)(d)).
- Y graddau y byddai'r gwasanaeth yn darparu manteision budd cymdeithasol i'r cyhoedd neu i'r gymuned berthnasol (adran 105(1)(e)).
- Darpariaethau ar gyfer gwneud y sawl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn atebol i'r gymuned berthnasol (adran 105(1)(f)).
- Darpariaethau ar gyfer caniatáu mynediad i aelodau o'r cyhoedd neu'r gymuned berthnasol i gyfleusterau'r orsaf, a darparu hyfforddiant ar ddefnyddio'r cyfleusterau hynny (adran 105(1)(g)).

3.7 Wrth ystyried a ddylid dyfarnu trwydded radio cymunedol, neu i bwy (ac ar ba amodau), rhaid i Ofcom hefyd ystyried yr angen i sicrhau na fydd unrhyw wasanaeth a ddarperir o dan y drwydded honno'n peryglu hyfywedd economaidd unrhyw wasanaeth radio masnachol lleol arall yn ormodol.

3.8 Yn ogystal, heb iddo leihau effaith y gofyniad hwnnw o ran effaith economaidd, mae adran 105(4) o Ddeddf Darlledu 1990 yn ei gwneud yn ofynnol bod Ofcom yn gosod amodau i sicrhau, i bob pwrpas, y bydd unrhyw wasanaeth radio cymunedol yn cael ei wahardd rhag cymryd unrhyw incwm perthnasol o hysbysebu am dâl a nawdd i raglenni ac eithrio yn y cyswllt canlynol:

- 'lwfans refeniw penodedig' o £15,000 ym mlwyddyn ariannol y trwyddedai am incwm perthnasol o'r fath - mae'r eithriad hwn yn berthnasol i unrhyw wasanaeth radio cymunedol lle mae'r gwasanaeth hwnnw'n gorgyffwrdd ag unrhyw wasanaeth radio masnachol lleol sy'n gwasanaethu cynulleidfa bosibl nad yw'n fwy na 150,000 o bobl sy'n 15 mlwydd oed neu'n hŷn.

- lwfans refeniw penodedig o £15,000 ym mlwyddyn ariannol y trwyddedai am incwm perthnasol o'r fath ynghyd â chyfran o gyfanswm yr incwm perthnasol (a bennwyd gan Ofcom yn y drwydded), ond na fydd yn fwy na 50% o gyfanswm yr incwm perthnasol (gan ddiystyru'r lwfans refeniw penodedig) ar gyfer y drwydded dan sylw yn y flwyddyn honno – mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r holl wasanaethau radio cymunedol heblaw gwasanaeth radio cymunedol y cyfeirir ato yn (i) uchod. Dylid nodi bod gwasanaeth radio cymunedol sy'n gorgyffwrdd ag unrhyw wasanaeth radio masnachol lleol sy'n gwasanaethu cynulleidfa bosibl nad yw'n fwy na 150,000 o bobl sy'n 15 mlwydd oed neu'n hŷn, sydd wedi'i amrywio ar unrhyw adeg yn unol ag adran 106(1A)(e) o Ddeddf Darlledu 1990, hefyd yn dod o dan yr eithriad hwn.

3.9 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae nawdd ar gyfer rhaglenni yn cynnwys nawdd i orsaf neu i sianel, a chyfathrebiadau masnachol.

## Y broses ar gyfer asesu ceisiadau

3.10 Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo'r gwaith o gyflawni rhai o'i swyddogaethau mewn perthynas â thrwyddedau darlledu teledu a radio i un neu fwy o'r uwch swyddogion gweithredol yng Ngrŵp Cynnwys a Pholisi Cyfryngau Ofcom. Mae gan bob un o'r unigolion hynny – ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd – gyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu trwyddedau radio cymunedol.

3.11 Dyma'r rhai a oedd yn gwneud y penderfyniadau ynghylch dyfarnu'r trwyddedau hyn: Cyfarwyddwr Ofcom, Gweithrediadau Rhaglenni a Thrwyddedau Darlledu, pedwar Pennaeth Ofcom, a Thrwyddedau Darlledu.

**Rhagfyr 2019**